**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Jane Hutt AS

8 Tachwedd 2022

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

Annwyl Jane,

I gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, byddem yn gwerthfawrogi gwybodaeth gennych i ategu'r wybodaeth rydym wedi gofyn amdani gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech roi:

- Eich barn gyffredinol ar Gyllideb Ddrafft 2023-34 o safbwynt cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol i'r graddau y mae'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.
- Eich barn am unrhyw adrannau o'r boblogaeth o blant a phobl ifanc y mae penderfyniadau gwariant o fewn Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn arbennig o debygol o effeithio arnynt (e.e. grwpiau sy'n agored i niwed).
- Gwybodaeth am:
    - Sut rydych yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i Dirprwyon, a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, i sicrhau bod eu cyllidebau yn hybu cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.
    - Sut rydych yn cydlynu mesurau i liniaru Tlodi Plant ar draws y Cabinet, a'ch asesiad o unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant newydd, a ddisgwylir yn 2023.
    - Unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â dyraniadau ar gyfer:

- effaith tlodi plant ar ganlyniadau addysgol, gan gynnwys y Grant Datblygu O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir uchod ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.Disgyblion;

- y gwariant arfaethedig ar gyfer cyflawni amcan Llywodraeth Cymru i leihau bylchau cyrhaeddiad ar draws pob oedran;

- cynhwysiant digidol, ac unrhyw asesiad o'r sut mae pandemig COVID-19 a'r defnydd cysylltiedig o dechnoleg wedi arwain at ddibyniaeth gynyddol ar ddysgwyr yn defnyddio eu dyfeisiau digidol eu hunain ac unrhyw gostau a ddyrannwyd i liniaru hyn;

- cynhwysiant ariannol a'i gysylltiad â'r cwricwlwm newydd; a

- ehangu mynediad at addysg uwch ymhlith pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig a chefnogi myfyrwyr tra ydynt yn y brifysgol i hybu cyfiawnder cymdeithasol a symudedd cymdeithasol.

  - Dyraniadau ar gyfer gwaith swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 16 Rhagfyr 2022 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 13 Rhagfyr 2022. Cysylltwch â'm Clerc os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir uchod ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.